



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

2022-2023

llyw.cymru

Cynnwys

- 1** Cyflwyniad
- 2** Cwmpas yr adroddiad
- 2** Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith
- 3** Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith
 - Cyfraith Cynllunio yng Nghymru
 - Cyfraith Etholiadol
 - Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat
 - Lesddaliadau a Chyfunddaliadau Preswyl
 - Cyfraith Bywyd Gwylt
 - Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru
 - Diogelwch Tomenni Glo
 - Cerbydau dan Reolaeth Awtomatig
- 5** Cynigion na fydd yn cael eu rhoi ar waith



MICK ANTONIW AS

CWNSLER CYFFREDINOL A
GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

Cyflwyniad

Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith gan Weinidogion Cymru. Dyma'r wythfed adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014, a oedd y sefydlu perthynas waith fwy uniongyrchol rhwng y Comisiwn a Gweinidogion Cymru. Mae'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2022 a 14 Chwefror 2023.

Mae Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y maent wedi rhoi cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru ar waith.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed dros y deuddeng mis diwethaf o ran nifer o faterion y mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud argymhellion yn eu cylch. Rydym wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfraith bywyd gwyllt yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ac wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Cydgrynhoi Cynllunio, gan weithio'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith ar lunio'r Bil. Rydym hefyd wedi ymrwymo i gyflwyno Bil mewn perthynas â Diogelwch Tomenni Glo yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon. Rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran bwrw ymlaen â chynigion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â gwasanaethau tacsis a cherbydau hurio preifat, diwygio lesddaliadol a chyfunddaliadol a thriwlynlysoedd datganoledig i Gymru.

Mae'r diweddariad hwn a'r cynnydd a nodwyd yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

Cwmpas yr adroddiad

1. Mae adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Senedd Cymru bob blwyddyn ynghylch i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn honno.
2. Dyma'r wythfed adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 15 Chwefror 2022 a 14 Chwefror 2023.
3. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn, a'r cynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd heb gael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer rhoi cynigion ar waith a phenderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi cynigion ar waith.
4. Mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Cynigion sydd wedi cael eu rhoi ar waith

5. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o roi cynigion Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Cynigion nad ydynt eto wedi cael eu rhoi ar waith

Cyfraith Cynllunio yng Nghymru

6. Mae cynnydd da'n cael ei wneud ar lunio'r Bil Cydgrynhoi Cynllunio, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chomisiwn y Gyfraith ar y prosiect sylweddol hwn. Mae'r prosiect mawr a thechnegol iawn hwn, sy'n golygu llunio Bil a fydd, mae'n debyg, tua 400 tudalen o hyd (800 tudalen yn y ddwy iaith), yn cael ei lywio gan **Adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru**, yr **ymateb interim i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru a'r ymateb manwl i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith cynllunio yng Nghymru** ac mae'n parhau i elwa ar wybodaeth werthfawr Comisiwn y Gyfraith wrth iddo barhau i ymwneud â'r prosiect.

Cyfraith Etholiadol

7. Ym mis Hydref 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru ei **hymgyngoriad ar Bapur Gwyn ar weinyddu a diwygio etholiadol** sy'n nodi ei hamcanion o ran diwygio a moderneiddio'r broses gweinyddu etholiadau yng Nghymru ac sy'n cynnwys ymrwymiad mwy hirdymor i gydgrynhoi'r gyfraith etholiadol.

Gwasanaethau Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

8. Yn gynnar yn 2023 bydd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn lansio ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat a mynd i'r afael â phroblemau croesffiniol.

Lesddaliadau a Chyfunddaliadau Preswyl

9. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio tuag at ddatblygu deddfwriaeth ar y cyd â Llywodraeth y DU i ddeddfu i weithredu argymhellion y prosiectau lesddaliad preswyl.

Cyfraith Bywyd Gwylt

10. Gosodwyd **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** gerbron y Senedd ar 26 Medi 2022. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud yn llwyr. Os caiff y Bil ei basio, Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gwaharddiad llwyr, gan gyflawni ein hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Tribiwnlysoedd Datganoledig i Gymru

11. Fel rhan o 13eg Rhaglen Comisiwn y Gyfraith o Ddiwygio'r Gyfraith, cytunodd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru i ddechrau ar brosiect Cymru yn unig ar y gyfraith sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig i Gymru. Mae'r prosiect bellach wedi'i gwblhau a **chyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad** ddechrau mis Rhagfyr 2021. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i roi'r argymhellion ar waith.

Diogelwch Tomenni Glo

12. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith **Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru** ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd ar 24 Mawrth 2022. Canfu'r adolygiad nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar ddiogelwch tomenni glo, Deddf Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni) 1969, yn ymdrin yn effeithiol â rheoli tomenni glo segur. Darparodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith gyfeiriad a chwmpas clir a llywiodd hynny, ynghyd â'n gwaith dadansoddi ninnau, **Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru)** a gyhoeddwyd ar 10 Mai 2022. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb interim i Gomisiwn y Gyfraith yn ymdrin â phrif themâu'r adroddiad. Yna, ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd y **Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad** ar y Papur Gwyn.
13. Cyhoeddir ymateb llawn i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Mawrth 2023.
14. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn ystod y Senedd hon er mwyn sefydlu cyfundrefn fodern i reoleiddio tomenni nas defnyddir, a all helpu i ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Cerbydau dan Reolaeth Awtomatig

15. Wedi i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei strategaeth drafnidiaeth ugain mlynedd – **Llwybr Newydd** – ym mis Mawrth 2021 a nodi cyfraniad ei pholisi trafndiaeth at ddatgarboneiddio yn **Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon 2** ym mis Hydref 2021, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu tystiolaeth yn y maes hwn ac yn croesawu gwaith Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn sy'n hollbwysig i ddyfodol cludo teithwyr.

Cynigion na fydd yn cael eu rhoi ar waith

- 16.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi cynigion adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniadau i beidio â rhoi argymhellion a wnaed mewn adroddiad gan Gomisiwn y Gyfraith ar waith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.